[redacted]

Ebrill 13, 2023

Y Rheolwr,
Adran Blaen-gynllunio,
3 Heol Spilman,
Caerfyrddin.
SA31 iLE

Annwyl Syr / Fadam,

Rwyf am ddatgan fy ngwrthwynebiad i gynnwys Safle SuV20/h1 – y cae ger Llwyn Henri, Porth-y-rhyd - yn safle i'w ddatblygu yn y Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Adneuo.

Rydw i wedi ffermio ar hyd fy oes gan ymddeol i un o'r byngalos ar yr Hen Heol.
Fel ffermwr dydw i ddim am weld colli cae amaethyddol arall. Mae'n bwysig cadw caeau ar gyfer y dyfodol. Mae hefyd yn braf medru edrych allan drwy'r ffenest ar gaeau gwyrdd. Mae'n dda i'r iechyd.

Mae'r cae yma hefyd yn bwysig ar gyfer draenio'r dŵr glaw sy'n llifo o'r tir uwch y tu ôl iddo. Os bydd hwn yn diflannu bydd mwy eto o broblemau i'r bobl sy'n byw yma.

Yr eiddoch yn gywir,

[redacted]